

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Ein cyf/Our ref MA-P/KW/2889/19
Lynne Neagle AC
Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

9 Medi 2019

Annwyl Lynne

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 8 Gorffennaf 2019 ynghylch adroddiad y Pwyllgor ar Gyllid Ysgolion yng Nghymru.

Rwy'n croesawu'r adroddiad ac yn cydnabod ar yr un pryd bod y maes yn un cymhleth, amlhaenog ac yn un sy'n dibynnu ar lawer o ffactorau. Mae cryfder y dystiolaeth a ddarparwyd i'r Pwyllgor yn tynnu sylw at bwysigrwydd sicrhau bod ein hysgolion yn derbyn y lefelau cyllid priodol.

Mae'r tabl sydd ynghlwm wrth y llythyr hwn yn nodi ymateb Llywodraeth Cymru i bob argymhelliad. Rwy'n falch fy mod wedi gallu derbyn holl argymhellion y Pwyllgor. Rwyf wedi ymrwymo i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor mewn perthynas â rhai o'r argymhellion; Byddaf yn gwneud hynny wrth i wybodaeth ddod i law neu wrth i'r gwaith ddatblygu.

A wnewch chi fynegi fy niolch i'r Pwyllgor ac i bawb arall sy'n ymwneud â chefnogi eich ymchwiliad.

Yn gywir

Kirsty Williams AC/AM
Y Gweinidog Addysg
Minister for Education

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1NA

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400

Gohebiaeth.Kirsty.Williams@llyw.cymru
Correspondence.Kirsty.Williams@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Adroddiad Y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg: Ariannu
Ysgolion yng Nghymru
Ymateb Llywodraeth Cymru

Argymhelliad 1

Dylai Llywodraeth Cymru gomisiynu adolygiad ar fyrder o faint o gyllid y mae ei angen i gyllido ysgolion yn ddigonol yng Nghymru, yn enwedig o gofio lefel y diwygiadau sydd ar y gweill. Dylai'r adolygiad hwn:

Ystyried, fel ei sail, beth yw cost sylfaenol rhedeg ysgol ac addysgu plentyn yng Nghymru, cyn i'r adnoddau ychwanegol y mae eu hangen ar gyfer ffactorau eraill fel amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ac amgylchiadau lleol, gael eu dyrannu; a darparu amcangyfrif o'r bwch cyllid presennol rhwng y swm sy'n cael ei wario ar ysgolion ar hyn o bryd a'r swm y mae ei angen i gyflawni'r hyn sy'n ofynnol - gan gynnwys yr agenda ddiwygio sylweddol.

Argymhelliad – Derbyn

Cytunaf fod angen adolygiad o'r fath. Bydd fy swyddogion, gan weithio gyda swyddogion o fewn llywodraeth leol, yn dechrau trafodaethau â rhanddeiliaid allweddol ac arbenigwyr er mwyn ystyried cwmphas adolygiad o'r fath. Byddaf yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor maes o law.

Goblygiadau ariannol: Bydd costau unrhyw adolygiad yn cael eu talu o'r cyllidebau presennol yn y Prif Grŵp Gwariant Addysg (MEG).

Argymhelliad 2

Y dylai dyraniad y gwariant ar draws cyllideb Llywodraeth Cymru gael ei gydbwysu tuag at wariant ataliol. Wrth wneud hynny, dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r flaenoriaeth y mae'n ei rhoi i gyllid llywodraeth leol ac o fewn hynny, y cyllid sydd ar gael i'r ysgolion, a hynny yn ei phroses o bennu cyllidebau blynyddol ac wrth ailddyrranu adnoddau yn ystod y flwyddyn.

Argymhelliad – Derbyn

Rydym yn cydnabod yn llawn bwysigrwydd gwariant ataliol a'i botensial i gael effaith drawsnewidiol ar wasanaethau cyhoeddus. Mae gwariant ataliol yn parhau i fod yn ystyriaeth bwysig wrth ddyrranu cyllidebau Llywodraeth Cymru.

Mae llywodraeth leol ar flaen y gad wrth ddarparu gwasanaethau cyhoeddus ac mae'n flaenoriaeth i Lywodraeth Cymru. Fe wnaethom gymryd camau y llynedd i liniaru'r gostyngiadau mewn cyllid llywodraeth leol ac rydym wedi ymrwmo i ddarparu'r canlyniad gorau posibl i lywodraeth leol o broses gyllidebol eleni.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 3

Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu costau/cyfraddau taliadau ar draws lleoliadau a gynhelir a lleoliadau nas cynhelir ar gyfer gofal plant, addysg blynyddoedd cynnar, a'r elfen gofal plant o dan Dechrau'n Deg. Dylai sylw arbennig gael ei roi i gynyddu'r cysondeb rhwng y gyfradd fesul awr sy'n cael ei thalu am addysg blynyddoedd cynnar a gofal plant a dylai'r cynllun peilot sydd wedi'i sefydlu yn Sir y Fflint fwydo'r ymagwedd hon.

Argymhelliad – Derbyn

Rydym yn parhau i adolygu'r cyfraddau hyn ac yn trafod yn rheolaidd â'r sectorau gofal plant ac addysg. Drwy weithio gyda Chyngor Sir y Fflint rydym wedi cyflwyno cynllun peilot ar gyfer cysoni'r cyfraddau cyllido yn ddiweddar ar gyfer Darpariaeth Feithrin y Cyfnod Sylfaen a gofal plant a ariennir o dan Gynnig Gofal Plant Cymru. Disgwylir i'r gwerthusiad o'r cynllun peilot hwnnw fod yn barod yn yr hydref. Yn ogystal, rydym wedi ymrwmo i adolygu'r gyfradd ar gyfer gofal plant a ariennir o dan y Cynnig Gofal Plant cyn mis Medi 2020. Mae darparu gofal plant rhan amser o ansawdd uchel yn hanfodol i'r rhaglen Dechrau'n Deg ond nid yw'r cyfraddau taliadau a wnaed i leoliadau gofal plant a gomisiynwyd fel rhan o'r rhaglen yn cael eu rhagnodi gan Lywodraeth Cymru a chânt eu negodi gan bob Awdurdod Lleol.

Goblygiadau ariannol: Mae'r costau sy'n gysylltiedig â'r adolygiad hwn yn cael eu talu o gyllidebau rhaglenni presennol yn y Prif Grwp Gwariant (MEG) Addysg

Argymhelliad 4

Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall y dyraniad adnoddau i'r awdurdodau lleol gael ei bennu trwy ddull sy'n seiliedig ar anghenion, yn hytrach na dull sy'n seiliedig ar fethodoleg hanesyddol. Dylai dull o'r fath sydd wedi'i seilio ar anghenion, wrth ystyried yr elfen addysgol yng nghyllid cyffredinol llywodraeth leol, ddechrau drwy ystyried faint mae'n ei gostio i addysgu plentyn (gweler argymhelliad 1) a defnyddio dangosyddion sy'n adlewyrchu'r amgylchiadau lleol megis amddifadedd a theneurwydd poblogaeth ar ben y gost ofynnol honno.

Argymhelliad – Derbyn

Mae'r is-grŵp Addysg o'r Is-grŵp Dosbarthu yn ystyried y potensial ar gyfer datblygu dull gweithredu amgen o ran y fformiwla addysg ym model setliad y llywodraeth leol. Byddai'r ddamcaniaeth sy'n sail i'r dull dosbarthu gwahanol hwn yn seiliedig ar lunio fformiwla gan ddefnyddio mesurau cost uned ar gyfer y prif elfennau ar wariant addysg.

Ar hyn o bryd mae'r is-grŵp Addysg yng nghamau cynnar y prosiect hwn ac yn gweithio gyda chynrychiolwyr cyllid CCAC er mwyn helpu gyda'r ffrwd waith. Mae'r grŵp yn ymchwilio ar hyn o bryd i is-set o fformiwla'u cyllido awdurdodau lleol a adolygwyd yn ddiweddar, er mwyn llunio rhestr o benderfynyddion yr angen i wario a'r ffactorau sy'n rheoli costau'r penderfynyddion hynny ar gyfer ysgolion. Unwaith y caiff y rhestr hon ei llunio, bydd yn rhaid i'r grŵp gytuno ar y gwerth/cymarebau a gaiff eu priodoli i'r ffactorau sy'n rheoli costau yn y dyfodol. Wedyn, caiff hyn ei

werthuso gan CCAC a rhanddeiliaid allweddol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn cytuno â'r egwyddorion cyn ystyried effaith ariannol lawn y newidiadau hyn.

Oherwydd y ffordd y caiff fformiwla gyllido setliad llywodraeth leol gyffredinol ei llunio, nid yw'n bosibl diweddarau'r rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag addysg ar wahân i'r meysydd eraill (megis gofal cymdeithasol, trafndiaeth a gwasanaethau eraill).

Cynllun peilot yw'r gwaith ar y rhan o'r fformiwla sy'n ymwneud ag addysg yn y bôn, ac y bydd angen ei brofi'n drylwyr cyn i'r fethodoleg gael ei chyflwyno, o bosibl, mewn meysydd eraill a chyn i'r fformiwla gyffredinol gael ei diweddarau. Gan fod y cyllid wedi'i neilltuo ni fwriedir i elfen addysg y fformiwla osod cyllideb addysg Awdurdod.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 5

Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro'n agosach lefel y flaenoriaeth y mae'r awdurdodau lleol yn ei rhoi i addysg yn y ffordd y maent yn gosod eu cyllidebau, er mwyn helpu i sicrhau bod y broses yn fwy tryloyw a chadarn a'i sicrhau ei hun fod digon o gyllid yn cael ei ddarparu i alluogi'r ysgolion i wella ac i gyflawni ei hagenda ddiwygio.

Argymhelliad – Derbyn

Mae setliad llywodraeth leol heb ei neilltuo sy'n golygu mai mater i awdurdodau yw penderfynu sut y byddant yn gwario'r cyllid hwn yn ôl anghenion a blaenoriaethau lleol. Mae fformiwla gyllido'r setliad yn ystyried yr angen cymharol i awdurdodau wario ar draws pob gwasanaeth, o ystyried faint o gyllid sydd ar gael i'w ddsbarthu a gallu cymharol awdurdodau i godi incwm yn lleol, drwy'r dreth gyngor.

Mae fformiwla'r setliad yn asesu angen cymharol awdurdodau i wario drwy gyfrifo 'Asesiadau Safonol o Wariant' ar draws meysydd gwasanaeth tybiannol a elwir yn Asesiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion. Pennir cyfanswm Cymru ar gyfer pob un o'r Asesiadau hyn sydd wedi'u Seilio ar Ddangosyddion drwy edrych ar gyfanswm y cyllid sydd ar gael, ychwanegu elfen dybiedig o incwm o'r dreth gyngor ac wedyn ddsrannu arian rhwng y gwasanaethau tybiannol drwy ddefnyddio data am wariant wedi'i gyllidebu a gwariant gwirioneddol awdurdodau lleol, ar lefel Cymru.

Wedyn caiff pob Asesiad wedi'i Seilio ar Ddangosyddion ei ddsbarthu rhwng y 22 o awdurdodau drwy ddefnyddio fformiwlâu a ddatblygwyd ac y cytunwyd arnynt gyda llywodraeth leol drwy Gyngor Partneriaeth Cymru a'i Is-grwpiau.

Mae Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi'r holl ddata ar wariant llywodraeth leol gan gynnwys ysgolion yn ein datganiadau ystadegol.

Awdurdodau Lleol sy'n gwbl gyfrifol am benderfynu faint o gyllid a ddyrennir i bob ysgol unigol, ac yn unol â'u swyddogaeth statudol i gynnig darpariaeth addysg briodol i bob dysgwr yng Nghymru. Mae pob Awdurdod Lleol yn pennu ei fformiwla ei hun ar gyfer cyllido ysgolion mewn ymgynghoriad ag ysgolion drwy ei fforwm cyllideb ysgolion, ac yn unol â'r fframwaith deddfwriaethol a ddarperir gan Reoliadau Cyllido

Ysgolion (Cymru) 2010. Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith lle mae Awdurdodau Lleol yn pennu eu dyraniadau cyllid ar gyfer ysgolion.

Mae'r Rheoliadau yn sicrhau cysondeb gyda'r gofyniad i 70% o gyllidebau ysgolion gael eu pennu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i ddsbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau er mwyn iddynt allu ystyried amgylchiadau ysgolion unigol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'u fforymau cyllideb ysgolion a phob ysgol yn eu hardal wrth bennu fformiwla cyllido.

Mae'n rhaid i ffactorau neu feini prawf ychwanegol megis maint a chyflwr adeiladau a thiroedd, ardrethi, glanhau, prydau ysgol a llaeth, cyflogau, ysgol ar safle rhanedig, anghenion addysgol arbennig dysgwyr, ac ati, hefyd gael eu hystyried yn fformiwla'r Awdurdod Lleol. Gall hyn effeithio ar faint o gyllid a gaiff pob ysgol unigol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 6

Y dylai Llywodraeth Cymru gyhoeddi canllawiau i egluro union bwrpas yr Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs), gan gynnwys a ydynt yn ganllaw i faint y mae angen i awdurdod lleol ei wario ar addysg er mwyn darparu lefel safonol o wasanaethau ysgol.

Argymhelliad – Derbyn

Mae pwrpas yr Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) wedi'i ddiffinio'n glir yng Nghyhoeddiad y Llyfr Gwyrdd:
https://gov.wales/sites/default/files/publications/2019-06/welsh-local-government-revenue-settlement-green-book-2019-2020_0.pdf (paragraffau 4 a 5 (ar frig tudalen vii)).

Bydd swyddogion yn parhau i edrych ar ffyrdd o esbonio pwrpas a swyddogaethau'r IBAs yn glir gan weithio'n agos gyda'r IGD.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 7

Y dylai Llywodraeth Cymru egluro pam y mae'n cyhoeddi gwariant yr awdurdodau lleol ar addysg yn uniongyrchol ochr yn ochr â'r Aseidiadau wedi'u Seilio ar Ddangosyddion (IBAs) yn ei datganiad ystadegol blynyddol, os nad yw IBAs i'w trin fel targedau gwario.

Argymhelliad – Derbyn

Rwy'n cydnabod y gall hyn fod yn ddryslyd. Bydd y Prif Ystadegydd yn rhoi'r argymhelliad hwn ar waith ar gyfer datganiadau ystadegol yn y dyfodol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 8

Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol i gydbwysu sut y gall yr egwyddorion ynglŷn â gwneud penderfyniadau'n lleol ac atebolrwydd democrataidd gael eu cynnal gan sicrhau ar yr un pryd fwy o dryloywder, cysondeb a thegwch yn y ffordd y mae ysgolion ar draws gwahanol awdurdodau lleol yn cael eu cyllido.

Argymhelliad – Derbyn

Byddwn yn parhau i weithio gyda'n haen ganol a thrwy'r IGD er mwyn edrych ar sut y gallwn sicrhau ar y cyd bod mwy o dryloywder, cysondeb a thegwch yn y ffordd y caiff ysgolion eu cyllido. Mae cysylltiad agos rhwng hyn ac argymhellion 4 a 5. Fodd bynnag, mae rhaid sicrhau cydbwysedd yma, yn y pen draw, Awdurdodau Lleol sy'n gyfrifol am benderfynu faint o gyllid a ddyrennir i bob ysgol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 9

Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu sut mae datganiadau cyllideb Adran 52 yn gweithio, er mwyn sicrhau bod y data a gyflwynir gan yr awdurdodau lleol yn debyg ac yn gyson. Dylai Llywodraeth Cymru sicrhau hefyd fod datganiadau cyllideb Adran 52 yn fwy hygyrch.

Argymhelliad – Derbyn

Mae adran 52 o Ddeddf Safonau a Fframwaith Ysgolion 1998 yn ei gwneud yn ofynnol i bob Awdurdod Addysg Lleol (AALI) baratoi datganiad cyllideb sy'n cynnwys gwybodaeth am ei wariant arfaethedig ar ysgolion a gynhelir. Ar hyn o bryd rydym yn casglu rhan 1 o ffurflen A52 sy'n gymaradwy ac yn gyson. Mae pob un gell yn casglu data yng ngham cyllideb ac alldro a chânt eu cyhoeddi gan StatsCymru ac maent ar gael yn hawdd.

Byddwn yn adolygu rhan 2 a 3 o Reoliadau adran 52 er mwyn ystyried a oes ffordd o ddarparu dull mwy cyson o gasglu'r data.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 10

Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i adolygu'r cydbwysedd y mae'n ei wynebu rhwng darparu cyllid neilltuedig ar gyfer amcanion penodol, a'r cyllid y mae'n ei ddarparu i lywodraeth leol i gyllido cyllidebau craidd yr ysgolion. Dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n rheolaidd hefyd i asesu'r gwerth am arian sy'n dod yn sgil dyrannu cyllid o'r fath.

Argymhelliad – Derbyn

Dyrennir unrhyw gyllid a gaiff ei ryddhau fesul achos, er mwyn sicrhau y defnyddir y dull cyflawni mwyaf priodol. Fodd bynnag, pe bai cyllid yn cyrraedd yn hwyr yna nid yw'r amseriad bob amser yn caniatáu hyn. Mae cyflog athrawon yn enghraifft fyw o hyn, cytunodd Llywodraeth y DU i ddarparu'r cyllid ym mis Medi, a oedd yn rhy hwyr

i'r arian fod yn rhan o'r Grant Cynnal Refeniw ac felly roedd yn rhaid iddo fod ar ffurf grant i Awdurdodau Lleol yn y lle cyntaf.

Rwyf bob amser yn awyddus i ddarparu cyllid drwy'r Prif Grŵp Gwariant Addysg i gyflawni mentrau penodol, megis y gwaith rydym yn ei wneud ar Addysg Gychwynnol Athrawon a chynnwys y Fframwaith Cymhwysedd Digidol (FfCD) ym mhob rhan o'r cwricwlwm ysgol. Er enghraifft, cafodd cyllid FfCD, yn seiliedig ar anghenion rhanbarthol, ei lunio i roi sgiliau digidol lefel uchel i'n dysgwyr yn unol â Chenhadaeth ein Cenedl. P'un a yw hyn yn datblygu adnoddau, yn hyfforddiant clwstwr neu'n ymchwil weithredu i ddatblygu astudiaethau achos. Enghraifft arall yw'r Rhaglen Addysg Gychwynnol i Athrawon.

Mae hefyd ystyriaethau eraill, megis a yw'r cyllid yn ddigwyddiad untro, neu'n ddosbarthiad penodol iawn na fyddai'n addas ar gyfer fformiwla ddosbarthu drwy'r setliad. Mae'n amlwg i mi y dylai arian grant fod ar gael i gefnogi mentrau penodol. Mae grantiau'n pennu telerau ac amodau clir, disgwyliadau a chanlyniadau clir.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 11

Y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu mecanweithiau i sicrhau bod arian grant yn cael ei roi i'r ysgolion cyn gynted â phosibl yn y flwyddyn ariannol. Os na all y cyllid hwn gael ei roi yn gynharach yn y flwyddyn ariannol, dylai Llywodraeth Cymru gynnwys mwy o hyblygrwydd yn yr amodau grant perthnasol ynghylch sut a/neu bryd y caiff yr ysgolion ei wario.

Argymhelliad – Derbyn

Byddwn yn parhau i weithio er mwyn darparu dyraniadau cyllid grant cyn gynted â phosibl. Fodd bynnag, mae llawer yn dibynnu ar benderfyniadau cyllidebol terfynol ac amserlenni. Mae'n rhaid gwario arian grant yn ystod y flwyddyn ariannol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 12

Y dylai Llywodraeth Cymru roi'r wybodaeth ddiweddaraf am ei gwaith gyda'r awdurdodau lleol i ymchwilio i'r rhesymau dros y lefelau uchel o gronfeydd wrth gefn, ac a yw'r rheiny wedi'u profi'n ddigonol ai peidio, a chyhoeddi unrhyw ganfyddiadau o'i ymchwiliadau. Yn benodol, dylai'r diweddariad amlygu unrhyw waith a wnaed mewn perthynas â'r 501 o ysgolion sydd â chronfeydd wrth gefn uwchlaw'r trothwyon statudol, gan gynnwys unrhyw ymyrraeth posibl gan yr awdurdodau lleol.

Argymhelliad – Derbyn

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn nodi y dylai 'cynllun ar gyfer cyllido ysgolion' awdurdod lleol ragnodi datganiad gan y corff dyfarnu ar yr hyn y mae'n bwriadu ei wneud gyda chyllid dros ben yr ysgol sy'n fwy na 5% o gyfran cyllideb yr ysgol neu £10k, p'un bynnag yw'r swm mwyaf.

Mae hefyd yn galluogi awdurdodau i gymryd camau gweithredu penodol pan fydd gwargedau ysgolion yn cyrraedd lefelau penodol. Pan fydd gwargedau'n £50,000 neu fwy mewn ysgol gynradd, yn £100,000 neu fwy mewn ysgol uwchradd neu ysgol arbennig, bydd awdurdodau'n gallu cyfarwyddo ysgolion i wario balansau. Os nad yw'r corff dyfarnu'n cydymffurfio â'r cyfarwyddyd, gellid adfachu'r swm gyda'r enillion yn cael eu cymhwyso at Gyllideb Ysgolion yr awdurdod.

Dylai ysgolion â gwargedau fod yn ddarostyngedig i waith monitro parhaus gan Awdurdodau Lleol er mwyn sicrhau y caiff cynlluniau a gymeradwywyd i wario eu balansau eu cyflawni ac o fewn yr amserlenni y cytunwyd arnynt gyda'r awdurdod. Trwy ADEW fyddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i sicrhau bod hyn yn parhau i fod yn flaenoriaeth, ac fe fyddwn yn herio'r Awdurdodau Lleol hynny nad ydynt yn rheoli hyn yn effeithiol.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 13

Y dylai Llywodraeth Cymru adolygu'r pwerau statudol sydd ar gael i'r awdurdodau lleol o dan Reoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 er mwyn canfod a ydyn nhw'n addas at eu diben. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru fynd ati'n benodol i ystyried a yw'r pwerau'n rhoi digon o hyblygrwydd i'r awdurdodau lleol ailddyrannu unrhyw arian y maent yn ei adennill mewn modd effeithiol. Dylai unrhyw adolygiad a wneir hefyd ystyried a ddylai trothwyon cronfeydd wrth gefn fod yn ganran gymharol o gyllideb yr ysgol yn hytrach na ffigur absoliwt, i ymdrin ag ysgolion o feintiau gwahanol.

Argymhelliad – Derbyn

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 yn darparu'r fframwaith lle mae Awdurdodau Lleol yn pennu eu dyraniadau cyllid ar gyfer ysgolion.

Mae'r Rheoliadau yn sicrhau cysondeb gyda'r gofyniad i 70% o gyllidebau ysgolion gael eu pennu yn seiliedig ar niferoedd disgyblion. Mae gan Awdurdodau Lleol ddisgresiwn i ddsbarthu'r 30% sy'n weddill ar sail amrywiaeth o ffactorau er mwyn iddynt allu ystyried amgylchiadau ysgolion unigol. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'u fforymau cyllideb ysgolion a phob ysgol yn eu hardal wrth bennu fformiwla cyllido.

Mae'n rhaid i ffactorau neu feini prawf ychwanegol megis maint a chyflwr adeiladau a thiroedd, ardrethi, glanhau, prydau ysgol a llaeth, cyflogau, ysgol ar safle rhanedig, anghenion addysgol arbennig dysgwyr, ac ati, hefyd gael eu hystyried yn fformiwla'r Awdurdod Lleol. Gall hyn effeithio ar faint o gyllid a gaiff pob ysgol unigol.

Byddwn yn edrych ar y Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru), gan weithio gyda rhanddeiliaid allweddol i archwilio sut y gellir eu hatgyfnerthu.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 14

Y dylai Llywodraeth Cymru barhau i weithio'n agos gyda'r awdurdodau lleol i fynd i'r afael ag achosion lle mae gan ysgolion gyllidebau diffygiol, yn enwedig lle nad oes cynllun adfer ar waith.

Argymhelliad – Derbyn

Mae Rheoliadau Cyllido Ysgolion (Cymru) 2010 fel y maent yn nodi bod yn rhaid i Awdurdodau Lleol roi cynlluniau adfer ar waith, i reoli diffygion ysgolion. Fodd bynnag, byddwn yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol a Llywodraeth Leol i archwilio'r gwaith o reoli diffygion ysgolion yn effeithiol.

Dylai awdurdodau lleol fonitro cyllidebau ysgolion yn agos er mwyn sicrhau nad oes dim un ysgol yn cael mwy nag sydd ei angen arni, bod gwariant yn effeithlon ac yn effeithiol ac y caiff diffygion eu cynllunio a'u rheoli'n gywir. Mae'n rhaid i awdurdodau lleol herio ysgolion sydd â chronfeydd sylweddol er mwyn penderfynu sut y maent wedi codi ac i ba ddiben y mae'r ysgolion yn bwriadu eu defnyddio.

Rwy'n parhau i herio consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol mewn perthynas â sicrhau bod cymaint o arian â phosibl yn cyrraedd rheng flaen ein system addysg ac ysgolion unigol. Rwyf bob amser yn agored i gynnal trafodaethau am y ffordd orau o sicrhau bod mwy o arian yn cyrraedd ein hysgolion.

Fodd bynnag, yn y pen draw cyfrifoldeb awdurdodau lleol yw cyllido ysgolion a nhw sy'n penderfynu sut y maent yn gwario'r cyllid hwn.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 15

Y dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gall fwrw ymlaen â'r nod sy'n bodoli ers tro byd o ddarparu cyllidebau tair blynedd i'r ysgolion, yng nghyd-destun setliadau cyllido tair blynedd i'r awdurdodau lleol, er mwyn galluogi'r ysgolion i gynllunio'n fwy effeithiol at y tymor hir. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried y cyfaddawd rhwng manteision rhagamcanion hirdymor a chywirdeb a sicrwydd y dyraniadau cyllideb hirdymor hynny.

Argymhelliad – Derbyn

Rydym yn dechrau eleni gyda'n setliad refeniw presennol nad yw'n ymestyn y tu hwnt i'r flwyddyn bresennol, 2019-20, a chyllideb gyfalaf sydd ond yn ymestyn tan 2020-21. Ar ôl i Lywodraeth y DU ddatgan yn hyderus y byddai'n pennu cyllidebau am dair blynedd drwy Adolygiad Cynhwysfawr o Wariant, mae'n dweud bellach ei bod yn fwyfwy tebygol ar hyn o bryd, oherwydd yr anhrefn a greodd, y caiff ei gorfodi i lusgo ei thraed a chyflwyno cynlluniau refeniw am flwyddyn yn unig. Fel Llywodraeth byddwn yn parhau i alw am waith cynllunio ariannol hirdymor ar gyfer ein hysgolion.

Rydym yn cydnabod y galw ymhlith ein partneriaid yn y sector cyhoeddus, ac yn cydymdeimlo â hynny, am gyllidebu dros gyfnod hwy pryd bynnag y bo modd er mwyn cefnogi gwaith blaengynllunio ariannol. Dylai pob Awdurdod Lleol gael cynllun ariannol tymor canolig gan ddefnyddio amrywiaeth o senarios synhwyrol.

Rwy'n parhau i alw am waith cynllunio ariannol yn y tymor hwy. Ein huchelgais bob amser yw rhoi eglurder ynghylch cyllidebau yn y tymor hwy, pryd bynnag y bo modd. Fodd bynnag, mae'n rhaid cydbwysu hyn â thymoriaethau cynllunio realistig a synhwyrol. Mae agenda cyni cyllidol Llywodraeth y DU ynghyd â'r ansicrwydd o ran Brexit yn cyfyngu ar ein gallu i wneud hyn.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 16

Y dylai Llywodraeth Cymru wneud gwaith i gyfathrebu ac egluro'n glir rolau priodol yr awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol wrth ddarparu gwasanaethau addysg, ac yn benodol gwasanaethau i ysgolion. Wrth wneud hyn, dylai Llywodraeth Cymru ystyried sut y gellir bwrw ymlaen â hyn o fewn gwaith grŵp yr haen ganol o dan arweiniad yr Athro Dylan Jones.

Argymhelliad – Derbyn

Drwy waith y grŵp gwerthuso a gwella rydym yn parhau i ddiffinio ac egluro rolau'r haen ganol. Bydd hyn yn bwydo i mewn i waith grŵp yr Athro Dylan Jones-Evans a byddaf yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor.

Ymdrech ar y cyd yw'r gwaith hwn lle mae consortia rhanbarthol yn gweithio ar ran awdurdodau lleol i arwain, trefnu a chydgyssylltu'r gwelliant ym mherfformiad ysgolion ac addysg pobl ifanc. Gyda'i gilydd, maen nhw'n chwarae rôl ganolog yn y gwaith o gyflawni ein huchelgais o system addysg hunanwella a pharhau i hyrwyddo a hwyluso canlyniadau gwell ar gyfer pob dysgwr.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 17

Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio ar fyrder i'r hyn y caiff yr £11 miliwn a gyllidebwyd gan yr awdurdodau lleol ar gyfer gwella ysgolion ei wario arno, o'i gymharu â'r £11 miliwn y mae'r awdurdodau lleol yn ei dalu i'r consortia rhanbarthol am eu gwasanaethau gwella ysgolion.

Argymhelliad – Derbyn

Byddwn yn parhau i weithio'n agos gydag Awdurdodau Lleol, consortia rhanbarthol a CLILC i egluro'r cyllidebau ar gyfer prosesau gwella ysgolion. Rydym yn monitro gwariant Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol ar brosesau gwella ysgolion drwy delerau ac amodau grantiau a byddwn yn parhau i wneud hynny wrth inni symud ymlaen. Mewn addysg nid oes rhestr hollgynhwysfawr o swyddogaethau a gyflawnir gan awdurdodau lleol.

Ar y cyfan, mae dyletswyddau cyffredinol ar gyfer gwella ysgolion. Fodd bynnag, mae'r Model Cenedlaethol ar gyfer Gweithio'n Rhanbarthol yn disgrifio pa weithgareddau rydym yn disgwyl iddynt gael eu cynnal yn rhanbarthol. Ond, yn hollbwysig, caiff y cyllid a'r cytundeb ar gyfer darparu'r gwasanaethau hyn eu penderfynu o fewn pob Cynllun Busnes rhanbarthol y cytunwyd arno gan bob un o'r cyd-bwyllgorau.

Mae fy swyddogion eisoes wedi dechrau gwaith i edrych ar y lefel o gyllid y mae Awdurdodau Lleol a chonsortia rhanbarthol yn ei dirprwyo i ysgolion a'r hyn a ddarperir fel cyfraniadau craidd. Byddwn yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r pwyllgor.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 18

Y dylai Llywodraeth Cymru weithio gyda'r awdurdodau lleol a'r consortia i sicrhau nad oes dyblygu na defnydd aneffeithlon ar adnoddau pan ddyrennir cyllid ar gyfer gwella ysgolion.

Argymhelliad – Derbyn

Mae'n gwbl glir nad yw'r consortia rhanbarthol yn haen ychwanegol yn y system. Yn yr achosion mwyaf effeithlon, mae consortia'n cefnogi ac yn gweithio'n agos mewn partneriaeth ag Awdurdodau Lleol ac yn y trefniadau mwyaf effeithlon cyfyngir ar ddyblygu a chaiff rolau a chyfrifoldebau'r Awdurdodau Lleol a Chonsortia eu cyfleu'n glir.

Mae arweinyddiaeth yr awdurdodau lleol yn aelodau o'r cyd-bwyllgor gyda'r consortia addysg rhanbarthol er mwyn sicrhau llywodraethu da a chyflawni effeithiol. Mae awdurdodau lleol yn cadw atebolrwydd statudol am brosesau gwella ysgolion, ynghyd â'r cyfrifoldeb am arfer pwerau statudol o ran ymyrryd ag ysgolion a'u trefnu.

Mae'r consortia rhanbarthol yn darparu'r gweithgareddau gwella ysgolion ar ran awdurdodau lleol ac yn atebol drwy eu modelau llywodraethu am gyflawni'r blaenoriaethau y cytunwyd arnynt o fewn y Cynlluniau Busnes.

Mae'n glir fod yn rhaid inni gydweithio er mwyn dod o hyd i fwy o ffyrdd o osgoi dyblygu a chael mwy o arian i'r rheng flaen. Byddaf yn parhau i herio ein haen ganol, mae hyn yn cynnwys Awdurdodau Lleol i sicrhau nad ydynt yn cadw cyllidebau y dylid eu dyrannu i'n hysgolion.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 19

Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro i ba raddau mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion. Wrth wneud hyn, dylid cydnabod bod rhai gwasanaethau'n cael eu darparu'n fwy effeithiol ac effeithlon yn ganolog.

Argymhelliad – Derbyn Byddwn yn parhau i fonitro i ba raddau mae'r awdurdodau lleol a'r consortia rhanbarthol yn dirprwyo cyllid yn uniongyrchol i'r ysgolion er mwyn sicrhau ei fod yn effeithiol ac effeithlon. Caiff hyn hefyd ei ystyried fel rhan o gwmpas yr adolygiad o gyllid ysgolion, a nodir yn argymhelliad 1.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 20

Y dylai Llywodraeth Cymru ymchwilio i effaith y broses lle mae ysgolion yn prynu gwasanaethau yn ôl oddi wrth yr awdurdodau lleol, er mwyn sicrhau bod y cyfraddau dirprwyo sy'n cael eu cyhoeddi yn adlewyrchu'n gywir lefel yr arian sy'n cael ei ddirprwyo mewn gwirionedd ar gyfer gweithgareddau craidd yr ysgolion.

Argymhelliad – Derbyn

Mae'r lefel y mae rhai awdurdodau lleol yn prynu yn ôl yn achosi pryder. Byddaf yn parhau i weithio gydag Awdurdodau Lleol i edrych ar hyn a'r ffordd y mae'n cael ei gofnodi. Bydd hefyd yn cael ei ystyried fel rhan o'r gwaith cwrmpasu wrth dderbyn argymhelliad 1.

Goblygiadau ariannol: Dim.

Argymhelliad 21

Y dylai Llywodraeth Cymru fonitro cyfraddau dirprwyo yn ofalus ar gyfer ei grantiau addysg neilltuedig ei hun er mwyn sicrhau bod yr arian yn cyrraedd y rheng flaen, a hynny at y dibenion a fwriadwyd.

Argymhelliad – Derbyn

Caiff hyn sylw fel rhan o'r gwaith o roi Argymhelliad 17 ar waith.

Goblygiadau ariannol: Dim.